OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2008 Rhif 170 (Cy.23)

PLANT A PHOBL IFANC, CYMRU

Rheoliadau Deddf Gofal Plant 2006 (Darparu Gwybodaeth) (Cymru) 2008

Wedi'u gwneud - - 28 Ionawr 2008
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - - 30 Ionawr 2008
Yn dod i rym - - 1 Ebrill 2008

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan adran 27 o Ddeddf Gofal Plant 2006(**1**), ac a freiniwyd ynddynt hwy bellach(**2**), drwy hyn yn gwneud y rheoliadau a ganlyn:

RHAN 1

CYFFREDINOL

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Deddf Gofal Plant 2006 (Darparu Gwybodaeth) (Cymru) 2008 a deuant i rym ar 1 Ebrill 2008.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

Dehongli

2. Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "addysg feithrin am ddim" ("*free nursery education*") yw darpariaeth a wneir o dan drefniadau rhwng y darparydd a'r awdurdod lleol yn unol â dyletswydd yr awdurdod lleol o dan adran 118 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998(**3**);

(**1**) 2006 p.21
(**2**) Yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.
(**3**) 1998 p.31

Mae i "Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru" yr un ystyr ag sydd i "*Her Majesty's Inspectorate of Education and Training in Wales*" yn Neddf Addysg 2005(**4**);

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Gofal Plant 2006;

ystyr "yn lleol" ("*locally*") yw o fewn ardal yr Awdurdod Lleol.

Gwybodaeth a Ragnodwyd

3. Mae'r wybodaeth y cyfeirir ati yn Rhannau 2 a 3 o'r Rheoliadau hyn yn wybodaeth a ragnodwyd at ddibenion adran 27(2) o Ddeddf 2006.

RHAN 2

GWYBODAETH AM DDARPARIAETH GOFAL PLANT

4.—(1) Pan fo awdurdod lleol yn darparu i rieni neu i ddarpar rieni wybodaeth am ddarpariaeth gofal plant yn ei ardal yn unol ag adran 27(2)(a) o Ddeddf 2006 rhaid i'r wybodaeth honno gynnwys y canlynol ar gyfer pob darpariaeth:

(a) yn ddarostyngedig i Reoliad 4(2), manylion cyswllt gan gynnwys enw'r ddarpariaeth, ei chyfeiriad, Rhif ffôn a chyfeiriad e-bost;

(b) y math o ddarpariaeth, hynny yw, darpariaeth mewn grŵp, yn y cartref neu yn yr ysgol.

(c) yr ystod oed a gwmpesir;

(ch) yr oriau agor, cyfanswm nifer yr wythnosau pan fo'r ddarpariaeth ar agor a'r wythnosau penodol pan fo'r ddarpariaeth wedi cau;

(d) nifer y lleoedd sydd ar gael ar gyfer pob grŵp oedran;

(dd) cost y ddarpariaeth;

(e) mewn perthynas ag addysg feithrin am ddim:

(i) a yw ei ddarpariaeth yn ddarpariaeth amser-llawn neu ran-amser ac a yw'n derbyn plant yn flynyddol neu fesul tymor;

(ii) sut mae'n ymwneud â'r galw am addysg cyfrwng Cymraeg neu leoliadau seiliedig ar ffydd;

(iii) manylion am y lleoedd a ddarperir yn yr adran a gynhelir a'r adran nas cynhelir (ond ariennir) fel ei gilydd. Dylai'r wybodaeth gynnwys:

(aa) ar gyfer y sector a gynhelir:

(i) enw, cyfeiriad a manylion cyswllt yr ysgol;

(ii) cyfrwng y ddarpariaeth yn yr ysgol; a

(iii) nifer y lleoedd perthnasol yn yr ysgol.

(bb) ar gyfer y sector nas cynhelir:

(i) enw, cyfeiriad a manylion cyswllt y lleoliad;

(ii) math y lleoliad (a yw'n Gylch Meithrin, cylch chwarae cyfrwng Saesneg, gwarchodydd plant neu feithrinfa dydd breifat etc.);

(iii) cyfrwng y ddarpariaeth yn y lleoliad; a

(**4**) 2005 p.18